




tud 4/5
Y Sioe

tud 8/9
Yr Ysgol

tud 11
Y Patsyn Glas

tud 12
Gruff

Cadair Gwenallt

Llongyfarchiadau i Gwenallt Llwyd Ifan, Llys Alaw, Tal-y-bont, ar ennill y gadair yn yr Eisteddfod Amgen eleni am ei awdl ar y testun 'Deffro'.

Cafodd Papur Pawb sgwrs ag ef am y seremoni cadeirio ac am y gadair ei hun.

Dyma'r eildro i Gwenallt ennill cystadleuaeth y gadair gan iddo gael ei gadeirio yn Eisteddfod Genedlaethol Môn yn 1999. Y tro hwn roedd yn falch iawn fod ei blant Elis ac Esther yn medru bod yn bresennol yn y seremoni.

A sermoni anarferol iawn ydoedd. Yn hytrach nag ar lwyfan y pafiliwn ar faes yr eisteddfod, mewn stiwdio yng nghanolfan newydd y BBC yng Nghaerdydd y cynhaliwyd y cadeirio. Gwnaed ymdrech arbennig gan yr Orsedd a'r BBC i gelu'r ffaith mai Gwenallt oedd yn fuddugol. Wedi parcio'r car yng nghrombil yr adeilad, fe hebryngwyd Gwenallt, ei wraig Delyth ac Elis ac Esther drwy system ddiogelwch a ymdebygai i system mewn maes awyr. Yna fe'u cuddiwyd mewn ystafell fel nad oedd hyd yn oed aelodau'r Orsedd yn cael eu gweld.

Dim ond wedi'r feirniadaeth, a draddodwyd gan y Prifardd T James Jones, y cafodd Gwenallt ei gludo i'r grisiau lle yr oedd i sefyll wrth i'r corn gwlad atseinio drwy'r adeilad.

Gyda'r teulu bellach wedi eu hebrwng i'r stiwdio, cafodd Gwenallt ei arwain at y gadair. Roedd y seremoni ei hun, dan arweiniad medrus yr Archdderwydd Myrddin ap Dafydd a



Seremoni'r cadeirio

chyda chymorth Ceidwad y Cledd, y chwaraewr rygbi Jamie Roberts, yn un hwyliog iawn.

Mawr fu'r dathlu y noson honno.

Mewn rhai dyddiau, cludwyd y gadair i Llys Alaw gan ei chynllunydd Tony Thomas. Gan ei bod mor fawr, cafwyd cryn drafferth i'w gosod yn ei lle yn yr ystafell fyw. Mae'n gadair drawiadol iawn wedi'i gwneud o goed onnen ac yn ddarn o gelf yn ogystal â lle priodol i'r prifardd eistedd.

Diolch i Gwenallt am ddod a chlod a bri i bentref Tal-y-bont.



Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:

Gwyn Jenkins
(01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com

Tynnu lluniau:

Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL

Tal-y-bont:

Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
832592

Parsel Henllys:

Rhys Huws, Llwyn Onn
832076

Bont-goch:

Llangynfelyn:

Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
832573

Eglwysfach/Ffwrnais:

Non Griffiths
(01654) 781264

Rhwydweithiau cymdeithasol:

Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cadeirydd:

Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
832697

Is-gadeirydd:

Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
832773

Ysgrifennydd:

Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
832344

Trysorydd:

Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
832093

Tanysgriadau:

Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
832448

Hysbysebion:

Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

Dylunio:

Iolo Ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

Plygu'r Papur:

Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins

Dosbarthwyr:

Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones;
Carys Briddon, John Evans

Cyhoeddwyd gan
Gymdeithas Papur Pawb.
Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru.

CYMRAG

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...
www.papurpawb.cymru
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

Golygyddion

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Fal a Gwyn, gyda Ceri yn dylunio.

Y golygyddion ar gyfer rhifyn Hydref fydd Mair (mair.n@btinternet.com), Beryl (ffermglanganraon1@btconnect.com) a golygydd newydd Betsan Siencyn (betsanelenid@gmail.com). Croeso i'r tîm Betsan.

Cofiwch gysylltu â golygyddion y mis mewn da bryd petai gyda chi eitem o newyddion neu stori o ddiddordeb lleol.

Y dyddiad cau yw 1 Hydref a bydd y papur ar werth ar 8 Hydref.

Pobl a Phethe

Priodasau'r Haf

Mae misoedd yr haf yn amser poblogaidd i gynnal priodasau a bu sawl teulu lleol yn dathlu'r achlysur hapus yma.

Roedd 19 Gorffennaf yn ddiwrnod crasboeth pan briododd Kara Wyn Jones a Sam Penfold, Taliesin, yng Ngwesty Ynyshir, Eglwysfach. Yno hefyd y cynhaliwyd y wledd. Dymunwn bob hapusrwydd i chi a'r teulu bach.

Llongyfarchiadau i Steffan Nutting, Tŷ Hen Henllys ar ei briodas ag Aisha yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar 24 Gorffennaf. Cynhaliwyd y wledd briodas ar dir Tŷ Hen Henllys. Y mae'r ddau wedi gwneud eu cartref yn Llys Newydd, Llandre.

Braf oedd gweld Talitha (Ebenezer gynt) nôl yn Nhalybont dros ŵyl y banc yn dilyn ei phriodas gyda Richard Millbank yn Colchester, Essex. Mae Talitha'n bennaeth ar weinyddu a threfnu brechlynnau Covid gyda'r gwasanaeth iechyd yn ei hardal – tipyn o gyfrifoldeb.

Dymunwn bob hapusrwydd i'r parau priod a gobeithio y gwelwn eu lluniau yn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Llwyddiant Arholiadau

Llongyfarchwn yn gynnes iawn holl ieuenctid yr ardal ar eu llwyddiannau yn eu harholiadau TGAU a Lefel A ac wrth raddio o wahanol golegau a phrifysgolion. Bu'n amser hynod o anodd iddynt wrth ddilyn eu cyrsiau dan gwmwl y feirws Corona. Pob dymuniad da i chi i gyd i'r dyfodol.

Capel Rehoboth

Cynhaliwyd gwasanaeth hapus o fedydd yng nghapel Rehoboth dan arweiniad y Parch Ddr Watcyn James, ar fore Sul, 21 Awst. Bedyddiwyd Lowri, merch ieugaf Eifion a Sara Jenkins, Wileirog Fach.

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Merched y Wawr

Tal-y-bont a'r cylch

Daeth nifer o'r aelodau ynghyd fore Mawrth, 7 Medi i fwynhau paned a sgwrs ac hefyd i gadarnhau rhai trefniadau'r gangen ar gyfer y tymor newydd. Bu Trish, un o'n haelodau yn ddigon lwcus i ennill gwobr raffl o £100 i'w wario yn siop Awen Teifi – trefnwyd y raffl gan Ferched y Wawr Ceredigion. Edrychwn ymlaen i'n cyfarfod swyddogol cyntaf ar 16 Medi am 7.30 yn Neuadd Goffa Tal-y-bont, gan gadw at reolau Covid, pan fydd y Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan a Delyth Ifan yn dod atom. Buasem wrth ein boddau yn croesawu aelodau newydd.

Gardd Flodau Orau

Dy farnwyd y wobwr gyntaf i Carys Briddon, Penrhyn, Tre'r ddôl, am ei gardd flodau mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan y rhaglen 'Garddio' ar S4C. Mae'n amlwg fod bysedd gwyrdd gan Carys a llygaid am liw. Llongyfarchiadau iddi.

(Byddwn yn cynnwys mwy am ardd liwgar Carys yn y rhifyn nesaf o'r papur)

Dyddiadur

MEDI

- 12 Bethel** 10 Gwilym Tudur (C)
Rehoboth 2 Gweinidog
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
Gwasanaeth Boreol
- 14 Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth** 3 Te Prynhawn, Crefftaw Pennau
- 16 Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch**
Noson yng nghwmni'r Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan a Delyth Ifan 7.30
Neuadd Goffa Tal-y-bont
- 26 Bethel** 10 Geraint Evans
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30 Cymun
Bendigaid

HYDREF

- 3 Rehoboth** 2 Gweinidog
10 Bethel 10 Gwilym Tudur

Cletwr Dydd Mawrth 1-4
'Clonc a Gweu'

Llythyr

Annwyl Ddarllenwyr

Ydy chi'n byw ym Montgoch, Tal-y-bont, Tre Taliesin, Tre'r Ddôl, Ffwrnais, Eglwysfach a'r ardaloedd cyfagos?

Dyma'ch cyfle i ddweud eich dweud am yr anghenion tai yn eich cymuned a dweud a oes angen tŷ arnoch chi yn y pentref neu'r gymuned leol. Efallai eich bod chi'n ystyried symud i dŷ llai o faint hefyd.

Llenwch yr holiadur trwy fynd i'r ddolen hon:

<https://bit.ly/3fAuC8V>

Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngwrdd, cysylltwch â Keith Henson ar 01570424318 (keith.henson@barcud.cymru) i dderbyn copi papur. Fel arall, gallwch hefyd gasglu copi papur o'r arolwg yn y lleoliadau canlynol:

Siop Tal-y-bont; y Llew Gwyn; Caffi Cletwr

Cofiwch annog ffrindiau, teulu, cymdogion a thirgion yr ardal i gwblhau'r holiadur hefyd. Bydd eich mewnbwn yn helpu i sicrhau, os oes unrhyw ddatblygiadau yn yr ardal, eu bod yn ymateb i anghenion pobol leol.

Y dyddiad cau ar gyfer llenwi'r holiadur yw 30/9/2021.

Darperir yr arolwg gan yr Hwylusydd Tai Gwledig (HTG) ar gyfer Ceredigion a'r ffiniau. Mae'r HTG yn gweithio gyda chymunedau gwledig i ymchwilio i'r angen lleol am gartrefi fforddiadwy ac i gefnogi unigolion a theuluoedd i brynu cartref yn eu cynefin, sydd o bosib allan o'u gafael oherwydd y cynnydd aruthrol mewn prisiau tai yn y gorllewin. Trwy gweithio gyda'r gymuned, cynghorwyr a datblygwyr lleol y nod yw ceisio dod o hyd i gyfleoedd a photential ar gyfer datblygiadau newydd. Mae hyn yn golygu bod llais pobl leol yn cael ei glywed o ran tai ac yn cefnogi dewis pobol lleol i ymgartrefu yng nghefn gwlad.
Keith Henson



Penblwydd arbennig

Cafodd sawl un yn yr ardal esgus da iawn i ddathlu yn ddiweddar gan eu bod wedi cael penblwyddi arbennig!. Llongyfarchiadau i Vicky Joseph, Maesyderi, Tal-y-bont, Emma O'Brian, Cytringham, Tal-y-bont, Halcyon Hindes, Frondirion, Tal-y-bont a Sion Pennant, Penrow, Bontgoch. Tybed allwch chi ddyfalu eu hoedran?

Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Barry a Heather Jones, Llys Terfyn, Tal-y-bont ar enedigaeth eu hwyres fach Saoirse Grace – merch fach i Robert a'i wraig Bronagh.

Cyrhaeddodd merch fach o'r enw Gwenno Jên aelwyd Ynyseidiol, Ffwrnais. Llongyfarchiadau i Sion a Catrin Saunders-Jones. Mae'n siwr fod ei chwaer a'i brawd mawr Efa ac Osian wedi gwirioni gyda hi.

Merch fach arall gyrhaeddodd Taliesin sef Mali Haf, merch fach i Michelle James a Jason Canter. Llongyfarchiadau i Donna ac Alwyn James ar ddod yn famgu a dadcu.

Ar 28 Mehefin, ganed Indi Rose, merch fach i Llion a Catrina, Maes y dderwen, Ffwrnais. Bydd digon o warchodwyr wrth law gan fod Mamgu a Dadcu a Hen Famgu a Hen Dadcu yn byw mor agos!

Bachgen bach o'r enw Osian Morgan Stevan a anwyd i Ffion Williams a Sion Southgate, Glan Leri, Tal-y-bont a brawd bach i Owain.

Ganed mab bach, Sollie i Richard a Rowen, 16 Stryd Birkenhead, Tal-y-bont.

Ganwyd merch fach, Bella, i Lianna Ellis-Jones a Robert Davies, Mans y Tabernacl, Tal-y-bont

Dymunwn yn dda i'r holl deuluoedd ac yn arbennig i'r rhai bach.

Mae dyfodol Ysgol Tal-y-bont yn ddiogel!

Yn yr Ysbyty

Gobeithio fod Gwen Manley, Swyn y Leri, Tal-y-bont, yn gwella wedi ei llaw-driniaeth diweddar yn Ysbyty Bronglais.

Dyweddio

Llongyfarchiadau i Llion a Catrina, Maes y Dderwen, Ffwrnais ar eu dyweddïad.

Pobl a Phethe



Cylch Meithrin Tal-y-bont

Cafwyd diwedd tymor digon prysur yn y Cylch Meithrin eleni. Ar ddechrau mis Gorffennaf bu'r Cylch yn dathlu Penblwydd y Mudiad Meithrin yn 50 mlwydd oed ac yn creu gwaith celf o Dewin a Doti.

Cawsom sioc fawr hefyd yng nghanol Mis Gorffennaf pan glywsom ein bod ni fel Cylch Meithrin wedi dod i'r 3 uchaf yng nghategori Cylchoedd Meithrin y De-Orllewin. Rydym yn falch iawn o hyn ac yn ddiolchgar iawn i'r holl staff a'r pwyllgor am yr holl waith maent yn ei roi fewn i'r Cylch. Rydyn ni'n disgwyl ymlaen yn arw nawr at fis Hydref pan fydd yr enillydd yn cael ei gyhoeddi yn seremoni wobrwyo'r Mudiad.

Cafodd y plant hefyd ddiwrnod o hwyl gyda dŵr cyn ddiwedd y tymor. Roedd pawb wrth eu bodd yn y tywydd braf.

Cafodd y plant barti i ddathlu diwedd y tymor yn ogystal a pharti pob hwyl i Miss Kara gan ei bod hi yn priodi dros yr haf. Roedd y plant wrth eu bodd yn gwisgo i fyny a chael bwyd parti. Rydyn ni yn ffurwelio gyda dwy o'r Cylch ym Mis Medi sef Jessie ac Erin. Pob lwc iddyn nhw yn yr ysgol fawr drws nesaf.

Edrychwn ymlaen at dymor newydd sbon eto yn llawn hwyl a sbri.

SE

Newid Aelwyd

Gobeithio fod May a Mel Jones wedi setlo'n dda yn eu cartref newydd, Cwm Cerwyn, Tal-y-bont.

Lan y ffordd i Penlon, Tal-y-bont y symudodd Dominic, Ceri, Lela a Jessie. Gobeithio eich bod chithau yn hapus yn eich cartref newydd. Braf hefyd gweld eich bod yn aros yn y pentref.

Cydymdeimlo

Taenwyd cwmwl o dristwch o amgylch yr ardal wrth i ni glywed am farwolaeth Alun Dyfed Evans, Coed yr Eos, Taliesin yn 47 mlwydd oed. Roedd yn fab i Euros ac Elizabeth ac yn frawd i Huw.

Cydymdeimlwn gyda Mrs Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont, gohebydd lleol Papur Pawb, ar farwolaeth ei brawd yng nghyfraith, Dan James, Llanddewi.

Collodd Carys Briddon, Tre'r ddôl ei brawd Iwan Jones oedd yn byw yn Aberystwyth.

Cydymdeimlwn â Hayley Edwards, Gwynfryn, Tal-y-bont ar farwolaeth ei mam Lynda Jane Ann Edwards, Maes y Garn, Bow Street, mamgu i Heledd, Elinor, Gethin a Rhodri.

Bu farw Nigel Ebenezer, brawd Mark Ebenezer, 2 Maes y Felin, Tal-y-bont, yn frawychus o sydyn yn ei gartref yn Swindon.

Yn 87 oed bu farw Dan Jones, King's Lynn, Norfolk, brawd Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont.

Yn 95 oed a'r hynaf o bum cenhedlaeth, ac yn byw yn y Borth, bu farw mamgu Ceris Williams, Penrhos, Tal-y-bont.

Rydym yn meddwl amdanoch oll yn eich hiraeth.

Bont-goch mewn ffuglen

Mae nofel arswyd newydd gan awdures o'r enw Sophie Kersey yn siwr o fod o ddiddordeb i drigolion Bont-goch. Mae Sophie, sy'n ferch i gefnder Carys Briddon, wedi gosod ei nofel yng Ngheredigion, gan ddefnyddio hanes ei hen dad-cu Jim Siop (James Pierce Evans) yn y stori. Er bod Bont-goch yn ymddangos yn y nofel mae wedi symud y pentref i dde'r sir gan y lleolir y stori yn bennaf yn Llangrannog.



*Dewi Jenkins gyda Cadi a Non
ar gwobrau a enillodd*

Treialon Cwn Defaid Tal-y-bont

Braf oedd cael bod yn ôl yn Llety Ifan Hen ar y dydd Mercher cyntaf yn Awst i gynnal treialon unwaith eto wedi'r flwyddyn wag llynedd. Roedd gwên ar wynebau pawb, yn falch i ddal i fyny gyda hen ffrindiau, rhai na welwyd ers dwy flynedd.

Da oedd gweld nifer o wynebau newydd eleni a hynny o dros Gymru. Mae treialon Talybont fel arfer yn denu nifer o dramorwyr i gystadlu ond gyda'r cyfyngiadau ar deithio ond dau gystadleuydd o dramor a welwyd a rheini yn gweithio yng Nghymru. Mae ystod eang o oedran ymhlith cystadleuwyr treialon cwn defaid – roedd ambell un yn ei arddegau ond roedd tri ar drothwy eu nawdeg.

Roedd nifer o gystadleuwyr ar y cae erbyn wyth o'r gloch y bore yn barod i ddechrau ac roedd bron yn hanner awr wedi naw yr hwyr erbyn i'r cystadleuydd olaf orffen ei rediad. Y beirniad, a gafodd ddiwrnod hir yn ei swydd, oedd John Henry Jones, Ty'r Banc gyda'i fab a'i ferch yn ei gynorthwyo yn eu tro.

Roedd wedi nosi erbyn i'r cadeirydd, Aled Carregcadwgan, ein galw at ein gilydd i ddiolch i'r cystadleuwyr, i'r stiwardiaid ac yn enwedig y beirniad. Yna gofynnodd i'r llywydd, Dafydd Tanrallt, i gyflwyno'r gwobrau i'r enillwyr.

Bu yn ddiwrnod llwyddianus iawn i Dewi Tyngraig gan iddo ennill tri o'r chwech dosbarth. Dewi enillodd y rhediadau Dull De Cymru, y dosbarth Cyfyngedig i Geredigion a'r dosbarth Nofis Dull De Cymru. Dewi hefyd enillodd y wobwr am y rhediad orau'r dydd.

Enillwyd y dosbarth i aelodau Clybiau Ffermwyr Ieuanc Ceredigion gan Ynr Tanrallt.

Enillwyd y dosbarth Dull Cenedlaethol gan Irwel Evans, Ystrad Meurig a'r Dull Nofis Cenedlaethol gan Jack Howells o Gaerfyrddin.

Mae'n arferiad i gynnal treialon i aelodau'r pwyllgor a ffrindiau ar y nos Fawrth a Dewi enillodd yn y ddau ddosbarth.

Bu yn ddiwrnod llwyddianus iawn gyda tywydd braf, golygfeydd ardderchog a nifer dda o gystadleuwyr.

Rhaid llongyfarch Dewi hefyd ar ennill dau le yn nhîm Cymru yn y treialon cenedlaethol a bydd yn cystadlu yn y treialon rhyngwladol yn Rhydyfelin nes ymlaen y mis yma.

Ieuan Morgan



*Ynr Siencyn, enillydd y dosbarth
i aelodau CFFI Ceredigion*

Sioe Tal-y-Bont



Plant Wileirog gyda'u cath anwes



Y ffotograffo wartbeg duon Cymreig a gipiodd y wobwr o £100 i Eifiona Evans, Glanaber



Gerwyn Breeze a enillodd am ei fideo 'Fy nghreff'

Rhian
trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com



Jessie Jenkins gyda'i gwaith buddugol

Sioe Tal-y-Bont – Y Canlyniadau

Oherwydd y pandemig, sioe dros y we oedd Sioe Tal-y-bont eleni eto ond bu cystadlu brwd mewn sawl adran. Y llywyddion oedd Marian a Dilwyn Evans, Tŷ nant. Bu aelodau'r pwyllgor yn ddiwyd iawn yn trefnu'r cyfan. Diolch i bob un ohonynt. Gobeithir y bydd modd cynnal sioe draddodiadol yn 2022.

GWARTHEG DUON CYMREIG:

ALUN VAUGHAN

9: Buwch gyflo neu buwch sydd yn llatha

- 1 Elinor Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf, Tal-y-bont
- 2 Leusa Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf
- 3 Lowri Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf

10: Heffer 2 flwydd

- 1 Tomi Jac Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf
- 2 Elinor Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf

DA BIFF

11: Bustach/Heffer 2 flwydd

- 2 Elgan Evans, Pantcoch, Tal-y-bont

12: Bustach/Heffer flwydd

- 2 Dilwyn Evans, Tynant, Tal-y-bont

FFOTOGRAFFIAETH ARBENNIG:

DAVID JONES

13: Llun o wartheg Duon Cymreig yn eu cynefin

£100: Noddwyd gan Ynni Llety, Llety Ifan Hen, Bontgoch

- 1 Eifiona Evans, Glanaber, Tal-y-bont
- 2 Rhodri Lloyd-Williams, Moelgolomen
- 3 Sara Jenkins, Tynygraig, Tal-y-bont

14: Llun o ddefaid unrhyw frîd mynyddig Cymreig yn eu cynefin £100: Noddwyd gan Marion a Dilwyn Evans, Bontgoch

- 1 Heledd Williams, Maes Yr Haf Farm, Trefriw, Llanrwst
- 2 Sharon Bonner, Llanbadarn
- 3 Sara Jenkins, Tynygraig, Tal-y-bont

DEFAID MYNYDD CYMREIG:

GERAINT JONES

15: Hwrdd unrhyw oed

- 1 Enoc Jenkins, Tynygraig, Tal-y-bont
- 2 Dafydd Jenkins, Tanrallt, Tal-y-bont
- 3 Steffan Nutting, Tyhen Henllys, Tal-y-bont

16: Dafad unrhyw oed

- 1 Dewi Jenkins, Tynygraig, Tal-y-bont
- 2 Enoc Jenkins, Tynygraig, Tal-y-bont
- 3 Steffan Nutting, Tyhen Henllys, Tal-y-bont

17: Oen hwrdd

- 1 Enoc Jenkins, Tynygraig, Tal-y-bont
- 2 Enoc Jenkins, Tynygraig, Tal-y-bont
- 3 Dewi Jenkins, Tynygraig, Tal-y-bont

18: Oen benyw

- 1 Enoc Jenkins, Tynygraig, Tal-y-bont
- 2 Enoc Jenkins, Tynygraig, Tal-y-bont

DEFAID TORWEN/TORDDU: HENRY JONES

19: Hwrdd unrhyw oed

- 1 Dafydd Williams, Morawel, Tal-y-bont
- 2 Dafydd Williams, Morawel

UNRHYW FRÎD LLAWR GWLAD: HENRY JONES

23: Hwrdd unrhyw oed

- 2 Iolo Davies, Doleifion, Taliesin

DEFAID DORSET (MOEL A CHORNI OG): JOHN BAKER

25: Hwrdd unrhyw oed

- 1 Iolo Davies, Doleifion, Taliesin

26: Dafad unrhyw oed

- 1 Iolo Davies, Doleifion, Taliesin

27: Oen hwrdd

- 1 Iolo Davies, Doleifion, Taliesin

28: Oen benyw

- 1 Iolo Davies, Doleifion, Taliesin

DEFAID ZWARTBLES: LORNA MURRAY

29: Hwrdd unrhyw oed

- 2 Susan Rowlands, Erglodd, Tal-y-bont
- 3 Susan Rowlands, Erglodd

31: Oen hwrdd

- 1 Susan Rowlands, Erglodd
- 2 Susan Rowlands, Erglodd

32: Oen benyw

- 3 Susan Rowlands, Erglodd
- 4 Susan Rowlands, Erglodd

TYWYSYDD IFANC (CEFFYLAU): DAVID S. DAVIES

33: O dan 12 oed

- 1 Mari Heulwen Evans, Glanaber, Tal-y-bont
- 2 Ieuan Meurig Evans, Glanaber, Tal-y-bont

TYWYSYDD IFANC (DEFAID): TIM BIDELE

37: O dan 12 oed, yn arwain unrhyw ddafad

- 1 Elsi Iago, Pantcoch, Tal-y-bont

TYWYSYDD IFANC (OEN SWCI): TIM BIDELE

39: O dan 12 oed, yn arwain oen swci

- 1 Ieuan Meurig Evans, Glanaber
- 2 Mari Heulwen Evans, Glanaber
- 3 Elsi Iago, Pantcoch

CŴN: RHEINALLT A CATHERINE RICHARDS

48: Dim fi!

- 1 Anwen Jenkins, Tynygraig, Tal-y-bont
- 2 Anwen Jenkins

49: Y ci â'r gynffon sy'n siglo fwyaf

- 1 Gerwyn Evans, Cwmslaid, Tal-y-bont
- 2 Jonathan Fry, Bryn, Tal-y-bont

50: Unrhyw gi wrth ei waith

- 1 Sara Jenkins, Tynygraig, Tal-y-bont
- 2 Rhodri Lloyd-Williams, Moelgolomen
- 3 Ynyr Siencyn, Tanrallt, Tal-y-bont

51: Y ci mwyaf ciwt

- 1 Betsan Siencyn, Tanrallt, Tal-y-bont
- 3 Sara Jenkins, Tynygraig

CYNNYRCH GARD: JULIET REGAN

52: Fy ngardd

- 1 Rachel Mills, Green Cottage, Tal-y-bont
- 2 Anthony Holt, Glasgoed, Tal-y-bont
- 3 Rachel Mills, Green Cottage

53: Cynhwysydd/basged grog/blwch ffenestr

- 1 Lynwen Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont
- 2 Mair Nutting, Tyhen Henllys, Tal-y-bont

54: Jwg o flodau a dail o'm gardd

- 1 Rachel Mills, Green Cottage
- 2 = Rachel Mills, Green Cottage= Fal Jenkins, Maesgwyn, Tal-y-bont

55: Ymwelwyr byd natur i'm gardd

- 1 Mair Nutting, Tyhen Henllys
- 2 Rhodri Lloyd-Williams, Moelgolomen
- 3 Rhodri Lloyd-Williams, Moelgolomen

CREFFTAU: RUTH JÊN

56: Carreg wedi'i haddurno

- 1 Michael Fothergill, Minafon, Tal-y-bont

57: Rhywbeth newydd o hen beth

- 2 Jo Chalmers, 4 Pentrebach

58: Crefftwaith ar y thema 'Byw yn yr awyr agored'

- 1 Michael Fothergill, Minafon
- 2 Helen Owens, Crud yr Awel, Pencae

59: Fideo 'Fy nghreffit'

- 1 Gerwyn Breeze, 4 Dôl Pistyll, Tal-y-bont
- 2 Anwen Jenkins, Tynygraig

COGINIO: RUTH JÊN

61: Torth

- 3 Jo Chalmers, 4 Pentrebach

63: Wyneb pîtsa, ar unrhyw does (plant)

- 1 Gruffudd Jones, Awel y Gors, Tal-y-bont
- 2 Tomos Breeze, 4 Dôl Pistyll, Tal-y-bont
- 3 = Magw Ifan, Pantcoch, Tal-y-bont= Tomos Breeze, 4 Dôl Pistyll

FFOTOGRAFFIAETH: ANT JARRETT

64: Bywyd ar ôl y cyfnod clo

- 2 Cath Lloyd-Williams, Bryn Neuadd Brynglas

65: Patrymau mewn natur

- 1 Anwen Jenkins, Tynygraig
- 3 Mair Nutting, Tyhen Henllys

66: Pensaernïaeth leol

- 1 Anwen Jenkins, Tynygraig
- 3 Betsan Siencyn, Tanrallt

67: Ffoto doniol

- 1 Ceri Jones, Tŷ Ceri, Taliesin
- 3 Rhodri Lloyd-Williams, Moelgolomen

MÊL: ANN OVENS

68: Fy hoff dasg wrth gadw gwenyn

- 1 Menna Morgan, 4 Dôl Pistyll, Tal-y-bont

PLANT CYNRADD: FALYRI JENKINS

69: Fideo i wneud i ni chwerthin

- 1 Elsi Iago
- 2 Edith Heron
- 3 Ieuan Evans

70: Meithrin: O dan y môr

- 1 Jessie Jenkins
- 2 Erin Aubrey
- 3 Ralfi Penfold

71: Derbyn: Trychfilod

- 1 Ela Lewis
- 2 Gruffudd Jones
- 3 Bess Evans

72: Bl 1 a 2: Trychfilod

- 2 Daniel Morgan
- 3 = Rory Groves= Freya Taylor

73: Bl 3 a 4: Mosaic neu Gysgodlun

- 1 Hari Williams
- 2 = Shae Jones= Ariana Lloyd-Williams
- 3 Osian Jones

74: Bl 5 a 6: Mosaic neu Gysgodlun

- 1 Amber Lewis
- 2 Osian Lewis
- 3 Steffan Dines

PLANT UWCHRADD a CHFFI: FALYRI JENKINS

76: Fideo TikTok

- 1 Ynyr Siencyn, Tanrallt

ANIFAIL ANWES: RHEINALLT A CATHERINE RICHARDS

74: Anifail anwes gorau yn cael ei arddangos gan blentyn

- 2 Mari Heulwen Evans, Glanaber



Glanyrafon

**Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT**

HUWLEWISTYRES.COM



Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

**ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221**



Mick Fothergill a'i ddodrefn gardd buddugol




Arddangosfa Gelf 'Lockdown'

Newydd ddod i ben yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth mae arddangosfa a dathliad o waith celf a wnaethpwyd ac a gafodd ei ysgogi dros gyfnod y pandemig. Roedd y gwaith yn cofnodi profiadau a theimladau personol artistiaid yn ystod y cyfnod clo. Roedd 400 darn o waith yn yr arddangosfa ac yn eu plith oedd gwaith gan ddwy artist leol, Ruth Jên a Lois Jones.

Roedd Ruth wedi argraffu nifer o ddelweddau ar roliau toiled cardfwrdd gwag gan iddi gael cyfle ac amser yn ystod y cyfnod clo i arbrofi gyda thorleino. Roedd hi'n ymateb i'r ffaith fod pobl yn gor-brynu'n y siopau ac felly'n creu prinder o nwyddau - megis rholiau toiled.

Roedd Lois wedi cyflwyno gwaith wedi ei argraffu yn dwyn y teitl 'Helfa'r Heli'. Mae ganddi wefan yn dwyn yr enw Celflois a gwerthir ei gwaith amrywiol ar Etsy.



Cyfarfod Blynyddol Papur Pawb

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Cymdeithas Papur Pawb ar 21 Gorffennaf yn y Neuadd Goffa. Ni chynhaliwyd cyfarfod blynyddol yn 2020 oherwydd Cofid felly roedd hwn yn gyfarfod ar gyfer dwy flynedd o gyhoeddi'r papur.

Yn wahanol i lawer o bapurau bro eraill, adroddwyd i'r papur gael ei argraffu drwy holl gyfnod y pandemig, ac eithrio rhifyn Ebrill 2020 a ymddangosodd yn ddigidol ar wefan y papur yn unig. Diolchwyd i'r Lofa am y cymorth ac i'r rhai a fu'n golygu, yn dylunio ac yn dosbarthu'r papur i'r siopau.

Adroddwyd hefyd bod dau o hoelion wyth Papur Pawb dros y blynyddoedd yn rhoi'r gorau i fod yn aelodau o'r tîm golygyddol sef Eirian a Geraint Evans. Diolchwyd iddynt am eu cyfraniad clodwiw i'r papur dros gyfnod hir.

Mae'r tîm golygyddol wedi'i atgyfnerthu wrth i Menna Morgan a Betsan Siencyn gytuno i ddod yn olygyddion.

Adroddwyd i'r Gymdeithas dderbyn cyfraniad hael i'w choffrau gan Gylch Cinio Aberystwyth. Trefnwyd i anfon llythyr o ddiolch at y Cylch. Etholwyd y canlynol i swyddogaethau gyda'r Gymdeithas:

Cadeirydd: Catrin M S Davies

Is-gadeirydd: Lisa Tomos

Ysgrifennydd: Rhian Evans

Trysorydd: Rebecca Williams

Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins

Geirfa Dysgwyr

llongyfarchiadau: congratulations

canlyniadau: results

arddangosfa: exhibition

llwyddiant: success

ymwelydd: visitor

eleni: this year

Doniol

Roedd dau heiciwr o'r enw Wil ac Ifan yn cerdded ar hyd Cwm Ceulan. Penderfynodd y ddau i ddringo i Foel-Llyn. Yno dywedodd Wil wrth ei gyfaill bod hen draddodiad yn dweud nad oedd gwaelod i'r llyn.

"Beth am i ni daflu carreg i'r dŵr i weld beth ddigwyddith" meddai Ifan.

Maen nhw'n gweld carreg fawr ger y llyn a chyda thipyn o ymdrech

llwyddon nhw i'w chodi a'i thaffu i'r llyn.

Yn syth wedi hynny fe welson nhw gi yn rhedeg nerth ei draed ac yn neidio i'r llyn a diflannu dan y dŵr.

Yna daeth bugail pryderus ei olwg draw atynt a gofyn:

"A welsoch chi gi defaid? Mae e werth 27 mil o bunnoedd".

"Do" atebodd Wil. "Fe welson ni gi yn neidio i'r llyn".

"Mae hynny'n amhosibl" meddai'r bugail. "Wnes i ei glymu fe ar dennyn hir i'r garreg draw acw...."

Cletwr

CYNHWYSIAD DIGIDOL

Sesiwn rad ac am ddim

i bobl sydd ddim wedi arfer

gyda thechnoleg

Gwener 14.00 - 15.00

01970 832 113

✉ events@cletwr.com

Learn
My Way

A member of the
Online Centres
Network

Portreadau Arvid



Y tro hwn yn y gyfres o ffotograffau gwyh Arvid Parry-Jones, dangoswn lun bendigedig o'r artist lleol Griff Jones a gyhoeddwyd yn *Papur Pawb* yn Chwefror 1985.

Cofiaf yn dda ymweld â Griff yn ei gartref yn James Street, Tal-y-bont, gyda recordydd tîp newydd nad oeddwn yn gyfarwydd ag e. Wedi sgwrsio am awr, sylwais nad oedd y peiriant wedi recordio dim a rhaid oedd i mi lunio ysgrif o'r hyn roeddwn yn ei gofio o'r sgwrs. Yn ffodus roedd cof da gen i yn y dyddiau hynny (er nid bellach).

Cefais gan Griff hanes sut y dechreuodd beintio:

'Oddeutu chwarter canrif yn ôl gofynnodd ei fab bychan, Stephen, iddo dynnu llun ac o hynny y tyfodd ddiddordeb Griff Jones mewn arlunio. Cychwynnodd gyda phaent dyfriliw ei fab ond yna dechreuodd arbrofi gyda phaent olew. Ni chafodd hyfforddiant o gwbl - dysgu ei hun i beintio a wnaeth trwy ddarllen ac arbrofi, er iddo gael ei ysbrydoli gan waith ei hoff arlunwyr John Constable a Camille Pissaro.'

Casglwr yswiriant oedd gwaith Griff a phan byddai'n teithio'r wlad byddai'n stopio'i gar o dro i dro mewn llecyn hardd a thynnu llun. Ond mewn sied yn agos i'w gartref yr oedd yn peintio:

'Dim ond unwaith y mentrodd beintio yn yr awyr agored pan aeth i Eglwysfach i beintio Ty'n Garth. Yn anffodus dechreuodd haid o bryfed ymosod ar ei ddarlun ac o fewn ychydig eiliadau roedd ei gampwaith yn frith o smotiau duon!

Cafodd Griff gryn enwogrwydd wedi i un o'i ddarluniau gael ei arddangos yn Arddangosfa Celf a Chrefft Eisteddfod Genedlaethol y Rhos yn 1961. Bu erthyglau amdano yn y papurau newydd ac fe ddaeth camerau teledu 'Heddiw' i Dal-y-bont i'w ffilmio. Trefnwyd arddangosfeydd o'i waith yn Amgueddfa'r Hen Gapel, Tre'r ddôl, Llyfrgell y Sir, Aberystwyth, ac yn y Llyfrgell Genedlaethol yn 1972. Roedd un o'i dirluniau, 'Llwybr Watcyn, Yr Wyddfa', hefyd i'w weld yn y Babel Celf a Chrefft, Eisteddfod Llanbedr Pont Steffan y llynedd [1984].

Dros y blynnyddoedd mae Griff Jones wedi peintio dros 200 o luniau a'r rhan fwyaf ohonynt yn dirluniau. ... Mae ei ddarluniau yn hongian ar waliau yn Awstralia, yr Unol Daleithiau ac mewn parlwr lawer i ddy yn yr ardal hon. Serch hynny, mae ei hoff ddarlun, tirlun bendigedig o Dalyllyn, yn hongian uwchben y lle tan yn ei gartref yn James Street, Tal-y-bont. Dim ond ffawd a arweiniodd Griff Jones i ddechrau peintio ond cyfaddefa i'r ffawd honno fod yn gyfrifol am gyfoethogi ei fywyd. Yn ddiamau hefyd mae ei ddarluniau ef yn eu tro wedi cyfoethogi bywydau y rhai hynny sy'n ddigon ffodus o berchen un ohonynt.'

GJ

Colofn Ben Lake AS

Ar ddechrau tymor newydd yn y Senedd yn San Steffan ac yng Nghaerdydd, un o'r prif flaenoriaethau i mi a'r aelodau etholedig hynny sy'n cynrychioli ardaloedd arfordirol y gorllewin yw'r sefyllfa ail gartrefi.

Dangosodd adroddiad diweddar bod 6% o stoc dai Ceredigion bellach yn ail gartrefi neu'n dai gwyliau. Ry'n ni hefyd yn gwybod bod canran sylweddol o'r stoc dai flynyddol yn cael eu prynu fel ail gartrefi sy'n gwthio prisiau tai i fyny yn syweddol.

Un sgil effaith amlwg o hyn oll yw y bydd mwy o'n pobl ifanc ni yn cael eu gorfodi i adael ein cymunedau.

Mae hwn yn argyfwng a fydd yn dinistrio cymunedau os na chymerir camau brys gan Lywodraeth Cymru

Ym mis Gorffennaf cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd cynllun peilot, a allai gynnwys newidiadau i drefniadau trethu a chynllunio, yn cael ei dreialu mewn rhan o Gymru. Mae'r llywodraeth hefyd yn bwriadu lansio Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg erbyn yr hydref. Ond mae'n rhaid cwestiynu a ydy hynny'n mynd ddigon pell?

Yr ofn yw y bydd rhagor o ymgynghoriadau a rhagor o gynlluniau peilot yn cymryd blynnyddoedd i wneud gwahaniaeth – ac erbyn hynny bydd hi'n rhy hwyr i'n cymunedau gwledig. Mae gwir fygythiad y bydd yr argyfwng yn gadael yn ei sgil genhedlaeth goll o bobol ifanc sy'n cael eu gorfodi i adael eu milltir sgwâr oherwydd eu bod yn cael eu priso allan o'r ardal lle cawson nhw eu geni a'u magu.

Mae Plaid Cymru eisiau gweld ymyriadau uniongyrchol i liniaru'r argyfwng, megis newidiadau i gyfreithiau cynllunio i ganiatáu i gynghorau osod cap ar nifer yr ail gartrefi, cau'r bwlch sy'n caniatáu i berchnogion ail tai gofrestru eu heiddo fel "busnesau" er mwyn osgoi talu premiwm treth y cyngor, a chyflwyno rheoliadau i dreblu'r tâl Treth Trafodiad Tir ar brynu ail eiddo. O'u hystyried a'u trafod yn ofalus, mae'r atebion yna – yr hyn sydd ei angen yw ewyllys gwleidyddol.

Mae'n ddyled arnom i'r bobl ifanc yn y cymunedau hyn i ddatrys yr argyfwng hwn a chaniatáu iddynt aros yn yr ardal y maent yn ei galw'n gartref.



NICEIC
APPROVED
CONTRACTOR

Alun Davies

Contractiwr Trydanol

T 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA

E alun.davies142@btinternet.com

STORFA HUNAN FYNEDIAD



UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI



MONITRO DIOGELWCH
24 AWR

Storfa Cartref & Busnes

Bocsos a Bubblewrap

Symud gyda



STORFA CANOLBARTH CYMRU

Tel: 01654 703592

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ



www.midwalesstorage.co.uk

Ysgol Tal-y-bont

Murlun Newydd

Ar ddiwedd y tymor gwelwyd prysurdeb rhyfeddol y tu allan i Ysgol Tal-y-bont! Yn dilyn ennill grantiau gan Gronfa Eleri a Chyngor y Celfyddydau a nawdd gan rieni o ddigwyddiadau seiclo noddedig, rhoddwyd ar waith brosiect y buom yn trafod amdano yn yr ysgol ers bron i ddwy flynedd!

Y bwriad oedd gwahodd artist lleol i weithio gyda holl blant yr ysgol i greu darn o gelf yn seiliedig ar yr ardal leol a doedd neb gwell i'n harwain gyda'r fath fenter ond Ruth Jên. Yn ogystal â bod yn hynod dalentog, roedd hi mor amyneddgar gyda'r plant gan lwyddo i gael y gorau ohonynt wrth drafod, cynllunio a chreu gyda nhw. Diolch o galon i ti Ruth, mae'r gwaith wedi esgor ar gryn drafodaeth yn lleol yn barod ac mae'r negeseuon caredig gan y trigolion wedi bod yn ysbrydoledig.

Roedd y prosiect yn gyfle perffaith i ni arbrofi gydag elfennau hollbwysig o'r cwricwlwm newydd i Gymru, yn enwedig ein gobaith o feithrin medrau creadigol y plant. Nod amlwg y cwricwlwm yw annog ysgolion i ddyfnhau gwybodaeth artistig y plant gan gyfrannu at eu dealltwriaeth o hunaniaeth, diwylliant y gymdeithas lle maent yn byw. Roedd hi'n fwriad pendant i fanteisio ar y cyfle i ddysgu mwy am yr ardal leol ac am bwysigrwydd y diwydiant gwlân yn y pentref. Llwyddwyd i gynnwys adran o'r gwaith ar nodau clust defaid rai o'r ffermydd lleol hefyd. Rwy'n gobeithio eich bod yn cytuno ein bod wedi llwyddo i gadw at ein hamcanion ac wedi creu darn o waith fydd gyda chi yn y pentref am flynyddoedd i ddod.

Rhaid diolch hefyd i nifer o rieni am eu gwaith yn paratoi'r wal gan gynnwys yr adeiladwr Andrew Lewis a fu'n golchi'r wal cyn y gwaith peintio.

Lles

Mae'r ysgol wedi rhoi pwyslais mawr ar les plant dros y misoedd diwethaf ac roedd hi'n bwysig iawn i ni fod yn rhan o'r Diwrnod Empathi cenedlaethol. Mae dangos empathi tuag at eraill yn rinwedd hollbwysig i ni ei feithrin. Mewn cyfnod mor ryfedd, roedd codi ymwybyddiaeth y plant o'r angen i gamu i esgidiau rhywun yn arall yn rhan bwysig o'r diwrnod. Diolch yn fawr i Gyngor Llyfrau Cymru am y llyfrau gwych i'n helpu gyda'r gwaith.

Euros 2020

Cawsom gymaint o hwyl yn cefnogi tîm pêl-droed Cymru yng nghystadleuaeth Euros 2020. Buom yn hynod ffodus i gael benthyg crysau Rhys Norrington-Davies am y cyfnod ac roedd hi'n fraint i gael gweld ei gasgliad o atgofion, yn enwedig gweld ei gap cyntaf dros y tîm dan 21. Diolch yn fawr Rhys, gawn ni nhw nol yn ystod Cwpan y Byd y flwyddyn nesaf plis?

Perfformiadau cerddorol

Gan ein bod yn rhannu newyddion yr ysgol ar Twitter, roedd hi'n syndod o'r mwyaf i weld fod cymaint o bobl wedi gwyllo ein perfformiadau cerddorol gyda dros 5,000 o bobl wedi gwyllo dehongliad gwych plant Blwyddyn 1 a 2 o'r anthem genedlaethol a dros 1,000 yn gwyllo'r perfformiadau eraill. Gwych!

Ymwelwyr

Wedi dros flwyddyn o gael bron neb yn ymweld â'r ysgol, roedd hi'n braf gallu croesawu ymwelwyr ar ddiwedd y tymor. Rydym mor ffodus i gael rhieni sy'n barod i roi o'u hamser er lles y plant. Un o uchafbwyntiau diwedd y tymor oedd derbyn ymweliad gan Helen Ovens i sôn am gadw gwenyn. Cafwyd sgwrs hynod ddifyr am gylch bywyd gwenyn a da iawn chi blant am ofyn cymaint o gwestiynau diddorol.

Diolch yn fawr i Jenny a thîm Fforwm Penparcau am yr anrhegion hyfryd.

A diolch hefyd i'r gwahanol athrawon teithiol gwasanaeth cerdd Ceredigion am eu perfformiadau graenus ac am ein cyflwyno i'r gwahanol offerynnau, a rhoi cyngerdd am ddim i'r trigolion!

Gweithgareddau Diwedd Blwyddyn

Yn ystod wythnosau diwethaf Tymor yr Haf cynhaliwyd ein mabolgampau ysgol. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau dîm am eu hymdrechion arbennig yn ystod y prynhawn a da iawn Leri am ennill y darian eleni. Diolch yn fawr i Anthony Jarrett am y casgliad o ffotograffau hyfryd.

Er ei bod hi'n sych ar draws Cymru cafwyd ambell gawod drom dros Ysgol Tal-y-bont yn y parti ffarwel i Flwyddyn 6! Diolch yn fawr i'r staff am drefnu ac i'r Gymdeithas Rhieni am yr anrhegion. Pob hwyl i chi yn y dyfodol a diolch yn fawr i chi gyd am eich cyfraniad i'r ysgol.

Llongyfarchiadau mawr i'r holl gyn ddisgyblion ar lwyddo mewn gwahanol arholiadau dros yr haf. Pob hwyl i chi gyd gyda'r profiadau newydd.

Staffio

Ar ddiwedd Tymor yr Haf cawsom gyfle i ddiolch i Angharad Rennie-Davies a Jac Williams am eu cyfraniad gwerthfawr i fywyd a gwaith yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf. Pob hwyl i chi'ch dau yn eich swyddi newydd a chofiwch alw nol i'n gweld pan fydd cyfle.

Llongyfarchiadau i Miss Sionna ar enedigaeth Nora. Pob hwyl i chi a'r teulu a gobeithio bydd cyfle i chi alwn i'n gweld cyn bo hir.

Y Gair Olaf



Dyma hynt a helynt fy ymdrech i ailgylchu.

Daw rhai bwydydd anifeiliaid mewn bocsys plastig, pethau hirsgwar o faint bwced gyda chaead arnynt. Gallant fod o ddefnydd pan yn wâg.

Defnyddiais sawl un dros y blynyddoedd i wneud twbiau yn yr ardd (ond cofier gwneud twll yn y gwaelod). Nid yw'r caeadon o ddim gwerth i mi ac roedd cryn nifer ohonynt wedi hel yn nhop yr ardd.

Felly dyma fynd â nhw i'r lle derbyn sbwriel yn Llanbadarn. Gofynnais gyngor gan y dyn yng ngofal y lle ond dywedodd mai gwastraff amaethyddol oedd gennyf ac na fedrent ei dderbyn. Rhaid oedd gwneud trefniadau i'w gasglu gan adran arall o'r Cyngor. (Cefais yr argraff nad oedd e wedi cael diwrnod dan hyd yma, roedd yn bum munud wedi naw y bore. Ond gwellodd ei hwyliau wedi datgan y newydd drwg i mi.)

Byddwch barod medd yr adnod. Fel pob dyn call roedd sach sbwriel ddu yn fy mhoced. Dyma drosglwyddo'r caeadon gwrthodedig i'r sach a chlymu'i cheg yn dynn gan ddarn o gortyn a oedd yn digwydd bod mewn poced arall. Trodd y gwastraff fferm i fod yn wastraff o'r ty ac i mewn ag e i'r sgip pwrpasol. Pawb yn hapus ond am geidwad y domen.

Dyma wers werth i'w dysgu. Os oes gennych unrhyw sbwriel amheus boed o fferm neu ffatri, mewn ag e i sach ddu. Nid oes angen mynd i ffwdan i'w cario ymhell. Rhowch hi allan ar ben y ffordd ar y Dydd Iau cywir.

Weithiau nid yw'n hawdd curo'r drefn, ond nid amhosibl chwaith. Beth am ailgylchu? Gadawaf hyn i bawb arall.

John Evans



Euros 2020



Gweithgareddau Diwedd Blwyddyn



Ffarwelio â'r staff



Rhedwyr cyflym y mabolgampau



Ruth Jên yn peintio'r murlun

Cletwr yn derbyn statws Caru Gwenyn!

Er llawenydd mawr i ni, cawson ni wybod ar heuldro'r haf eleni fod Cletwr wedi derbyn statws Caru Gwenyn! Yn ogystal â bwydo pobol, o'r dechrau rydyn ni hefyd wedi ystyried anghenion bwyta pryfed peillio yn ein gerddi felly braf iawn oedd cael cydweithio i wneud cais i gynllun Llywodraeth Cymru, "Caru Gwenyn". Er mwyn sicrhau'r statws, roedden ni'n gorfod bodloni 4 thema: Bwyd, Cartref Pum Seren (Cynefin), Dim Plaladdwyr a Hwyl. O dan 'Hwyl', mae'n bwysig ein bod ni'n denu'r gymuned i gymryd rhan a dysgu mwy am bwysigrwydd peillwyr, a'r gobaith yw cynnal mwy o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â pheillwyr dros y flwyddyn i ddod a thu hwnt, felly cadwch lygad am y rheini!



Hoffen ni ddiolch i bawb sydd wedi'n helpu i gyrraedd y nod: grŵp garddio, bwrdd rheoli a staff Cletwr a'r holl gwsmeriaid sydd wedi bod yn gefnogol.

Os oes diddordeb gynnwch chi mewn hybu pryfed peillio eich hun, ewch at ein tudalen Facebook, Paradwys i Beillwyr, i gael syniadau: <https://www.facebook.com/Paradwys-i-BeillwyrA-Paradise-for-Pollinators-100518548800954/>

Hefyd, rydyn ni'n chwilio am fwy o wirfoddolwyr i ymuno â'n criw clên o arddwyr, felly os oes diddordeb gynnwch chi mewn ein helpu i gynnal ein statws, croeso i chi gysylltu â'r Cletwr. Does dim angen bod yn brofiadol – mae 'na dasgau sy'n addas i bob lefel – ac yn ein sesiynau misol rydyn ni wastad yn ffeindio amser i fwynhau sgwrs dros baned!

Siân Saunders ar ran Grŵp Caru Gwenyn Cletwr



Ymwelydd Anarferol

Un o'r golygfeydd rhyfeddaf a welwyd yn ardal Papur Pawb yn ystod mis Awst oedd ymweliad dyn noeth heblaw am wisg nofio bach glas (sbidos) yn cerdded ar hyd y ffordd fawr. Mae cefnogwyr pêl-droed, yn arbennig rhai Everton, yn gyfarwydd iawn â 'SpeedoMick' â'i ymdrechion glew yn codi arian ar gyfer achosion da.

Es i i gwrdd ag ef ar y ffordd rhwng Ffwrnais a Thre'r ddôl gan dynnu ei lun ef a'i wraig Rachel a oedd wedi ymuno ag ef ar gyfer y daith rhwng Machynlleth ac Aberystwyth. Mae Mick Cullen (ei enw go iawn) wedi cerdded milltiroedd lawer dros y blynyddoedd diwethaf gan godi dros £650,000 o nawdd a ddosbarthwyd ymhlith y difreintiedig.

Yn ystod yr haf hwn bu'n cerdded drwy'r Iwerddon cyn croesi i Gymru. Cerddodd o Gaergybi drwy ogledd Cymru gan gyrraedd Machynlleth ar 24 Awst. Ar y ffordd fe lwyddodd i ddringo'r Wyddfa gan honni mai ef oedd y cyntaf i gyflawni hynny mewn nicyrs glas! Roedd y daith o Mach i Aberystwyth ar 25 Awst yn un hynod o beryglus gyda'r traffig yn drwm a dim ond palmant mewn rhai mannau ond fe lwyddodd Mick a Rachel i gyrraedd pen y daith. Bellach mae 'SpeedoMick' wedi cwblhau ei daith drwy Gymru, gan gasglu miloedd o bunnoedd ar gyfer achosion da.

Mae modd cyfrannu at yr achos drwy The SpeedoMick Foundation ar y we.

LLAETH LLEOL ORGANIG
ar gael yn y
Cwtsh Llaeth Aberystwyth a Machynlleth

www.llaethjenkinsmilk.co.uk
07813 827 712
@cwtshllaeth

Hefyd ar gael yn
Cletwr,
Tre'r Ddol

Jenkins, Cerrigaranau Lychaf

Priodas Aur



Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Richard ac Eirlys Huws, Pantgwyn, Bontgoch, ar ddathlu eu priodas aur ddechrau Gorffennaf.

Y LLEW GWYN Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gws £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245

garethwhitelion@outlook.com

**James
Memorials**

Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

*Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ

helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

Ar y Patsyn Glas

Mae'r patsyn glas yn Nhal-y-bont wedi denu amrywiaeth o ddigwyddiadau yn ystod yr haf ac mae'r dudalen hon yn cynnwys lluniau ac adroddiadau o'r holl weithgareddau.



Clara Ceredigion

Yn ystod mis Gorffennaf bu Cwmni Theatr Arad Goch yn teithio led led Ceredigion yn perfformio eu sioe diweddaraf 'Clara Ceredigion' yn yr awyr agored. Ar yr ail gynnig (bu raid gohirio'r tro cyntaf oherwydd tywydd gwael), cyrhaeddodd y criw dawnus Dal-y-bont ddiwedd pwnn Gwener (gwylb eto!!!) 30 Gorffennaf. Roedd cynulleidfada dda wedi ymgynnull ar y patsyn glas i'w croesawu ac roedd dwy aelod o'r cynhyrchiad â chysylltiadau agos â theuluoedd lleol. Un o'r merched fu'n perfformio oedd Lynwen, merch Anwen Howard ac Anni, wyres Gwilym ac Ann Jenkins – y ddwy yn enwau ac wynebaw cyfarwydd ar lwyfan ac ar sgrin. Yn anffodus, oherwydd y glaw bondigrybwyll rhan yn unig o'r sioe oedd yn bosibl ei pherfformio ond roedd yn ddigon i godi hwyl a chalon y gynulleidfa. Diolch i Arad Goch am ymweld â ni.



YESCymru

Ar fore Sadwrn 10 Gorffennaf daeth cefnogwyr lleol y mudiad YESCymru i'r patsyn gyda'u baneri lliwgar i'w chwifio wrth i geir deithio drwy'r pentref. Erfynwyd ar y gyrrwyr i ganu corn i ddangos eu cefnogaeth ac yr oedd y patsyn glas yn fwrwm o swm drwy'r bore.



Cefnogi Rhys

Roedd cryn gyffro yng Nghymru gyfan wrth i'r tîm pêl-droed cenedlaethol gystadlu yn Euros2020 yn ystod yr haf. Ychwanegwyd at y diddordeb lleol gan fod bachgen o Dal-y-bont, Rhys Norrington-Davies, yn aelod o garfan Cymru.

Er na chafod Rhys chwarae yn ystod y gystadleuaeth, roedd y gefnogaeth iddo ef a'r garfan gymaint fel y trefnwyd i osod baner a fflagiau lliwgar ar y patsyn glas.

Mynd drot drot



Bosib 'dyw'r Patsyn Glas heb weld cymaint o geffylau o flaen y tafardai ers dyddiau'r ceffyl a chert ond ar ddydd Sadwrn 28 Awst dyna lle roedd ugain ohonyn nhw! Mae Cletwr yn gyfarwydd â chael ymwelwyr sy'n croesi Cymru o Dalgarth yn yr haf i orffen y daith yn Ynyslas ond roedd y rhain yn gwneud y daith o Clun, swydd Amwythig. A thra bod y sawl o Dalgarth yn teithio mewn steil, yn aros mewn llety clyd roedd yr ugain o Clun yn aros mewn beudai, falle stablau, hynny yw beth bynnag oedd gerllaw hyd yn oed pabell dan y lloer. Roedd ganddynt 'booze wagon' i gario nid yn unig y 'booze' ond yr holl geriach oedd eu hangen arnynt am bedwar diwrnod yn y cyfrwy, eu dillad, bwyd, pebyll ac yn y blaen. Y man ymgynnull a chychwyn oedd Clun ond roedd un wedi teithio o Stafford er mwyn ymuno yn y fenter tra oedd eraill o bellach na hynny, gan gynnwys un Duchess go iawn (yn enedigol o Gaerdydd!). Ymlaen aeth y criw urddasol yn gyntaf drwy Allt-y-crib i'r Borth ac yna i Ynyslas gan roi'r cyfle cyntaf i'r ceffylau garlamu i orffen y daith.

Rhys Huws

(D.S.Mae'n debyg y bydd marchogion ceffylau lleol yn gorymdeithio ar hyd y ffordd fawr yn Nhal-y-bont ar fore Sul 19 Medi am 11.00. Y nod yw ceisio addysgu gyrrwyr ceir ar sut i basio ceffylau yn ddiogel.)

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com

Michael Rowlands
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576

Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278



Gruff (yn yr helmet oren) yn gwibio drwy Tre'r ddôl

Gruff yn y Ras Fawr

Gobeithio i chi gyd weld Gruff Lewis, Tal-y-bont, wrth iddo gymryd rhan yn y ras feiciau Tour of Britain o'r 5 Medi hyd 12 Medi.

Wyth cymal sydd i'r ras eleni yn mynd o Penzance i Aberdeen gyda dau gymal yng Nghymru. Roedd y cymal cyntaf o gwmpas Llandeilo sef ras i'r tîm cyfan fel uned, 18km yn erbyn y cloc. Cynhaliwyd yr ail gymal ar 8 Medi o Aberaeron i Landudno heibio Aberystwyth, Y Borth, Tre'r ddôl, Eglwysfach, Machynlleth, y Bermo, Porthmadog, heibio Ffynnon Eidda i Ysbyty Ifan, drwy Llanrwst a Chonwy i Landudno, 210km (131mllt).

Yn ogystal a'r pellter, roedd y beicwyr yn gorffen ar gopa'r Gogarth gan ddringo'r ffordd mwyaf serth wrth ochr y tramiau!

Bu Gruff yn ymarfer yn y Pirineau tra'n sylwebu i S4C ar y Tour de France felly dylai fod yn barod ar gyfer dringo'r Gogarth!

Dyma'r tro cyntaf erioed i'r ras ddefnyddio gorllewin Cymru fel rhan o'r Tour a'r cymal yma yw The Queen Stage sef yr anoddaf o'r holl gymalau.

Tîm Gruff yw Ribble Weltite Pro Cycling ond fe fydd llygad y cyhoedd, yn ogystal ag ar y bois lleol wrth iddyn nhw wibio heibio, yn chwilio am sêr y byd seiclo o bedwar ban byd yn y timau rhyngwladol sy'n cymryd rhan. Mae'r deunaw tîm o chwech aelod yn bennaf o Ewrop ac yn cynnwys mawrion y gamp, y beicwr byd enwog a welwyd yn ddiweddar yn cystadlu yn y gemau Olympaidd eleni yn Japan ac yn rasys mawrion y cyfandir. Ochr yn ochr â chewri'r gamp bydd y Cymry Rhys

Britton o Bontypridd, Owain Doull o Gaerdydd a Gruff.

Os oeddech yn sefyll ar ochr y ffordd ar 8 Medi wrth i'r criw o 108 fynd heibio fe fydddech wedi gweld leicra lliwiau enfys y timau a chlywed tuchan yr ymdrech.

Yn y rhifyn nesaf gobeithir cael argraffiadau Gruff o'r ras.

Rh H

Dim Tîm Pêl-droed Eleni

Siom o'r mwyaf oedd clywed na fydd 'na dim pêl-droed yn cynrychioli pentref Tal-y-bont yn y cynghrair lleol y tymor hwn.

Yn ei gyfarfod blynyddol, penderfynwyd gan Glwb Pel-Droed Tal-y-bont nad oedd yn bosibl cystadlu yn ystod tymor 2021-2, yn rhannol oherwydd effaith rheolau Cofid ond hefyd oherwydd prinder chwaraewyr.

Wedi colli cae pêl-droed y pentref, bu'r clwb yn chwarae'i gemau ar gaeau Blaendolau ond mae rheolau newydd Cymdeithas Pêl-droed Cymru yn achosi anawsterau i glwb heb gartref parhaol. Ar ben hynny mae chwech o chwaraewyr wedi gadael y clwb dros y ddau dymor diwethaf er mwyn chwarae ar safon uwch. Does dim bai arnynt am fod yn uchelgeisiol ond mae'n ergyd fawr i'r tîm. Mae pedwar chwaraewr arall hefyd wedi penderfynu rhoi'r gorau i chwarae.

Y bwriad yn awr yw cadw'r clwb yn fyw o ran strwythur ac ystyried y sefyllfa mewn deuddeg mis. Gobeithir y bydd rhai o'r ieuenctyd addawol sydd yn y clwb ar hyn o bryd yn dod i'r oedran pryd y gallant chwarae ar y lefel uwch. Mae'r clwb yn pwysleisio felly mai '...saib am flwyddyn fydd hwn, a nid y diwedd!'

Mae'n drueni gweld hyn yn digwydd ar drothwy dathliad y clwb presennol yn 50 mlwydd oed ond gobeithio y daw eto haul ar fryn.

Gwasanaeth argraffu diguro

Holwch Paul
am bris!
paul@yloffa.com
01970 832 304

yloffa
Talybont
Ceredigion
SY24 5HE
www.yloffa.com